# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

Dydd Gwener, 11 Mehefin 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, K.V. Broom, J.P. Jenkins, B.W. Jones, M.J.A. Lewis, S. Najmi, E.M.J.G. Schiavone, E.G. Thomas, D.T. Williams, R. James (yn lle B. Thomas), T.A.J. Davies a/ac D.M. Cundy (yn lle G.R. Jones)

**Aelodau Cyfetholedig:**
A. Enoch - Rhiant Lywodraethwr
V. Kenny - Cynrychiolydd yr Eglwys Babyddol

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd G. Davies - Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
A. Rees, Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant
A Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiad
G. Adams, Prif Rheolwr Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid
E. Williams, Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Proses)
R. Williams, Rheolwr Darpariaeth Anghenion Ychwanegol
M. Evans-Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 12.35 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen, G.R. Jones a B. Thomas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

| Aelod | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Cyng. Jean Lewis | 4. Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid | Mae'n Gadeirydd Clwb Ffermwyr Ifanc yn Sir Gaerfyrddin |

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o chwipiau plaid.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. GWASANAETHAU CYMORTH IEUENCTID

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd J. Lewis wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddodd drosolwg o ymateb y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn ystod pandemig COVID-19, ynghyd â gwybodaeth gefndir berthnasol. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid a Chyfiawnder Ieuenctid a ddarparwyd o dan un strwythur rheoli gan ganiatáu i ddull cyfannol o ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid gael ei ddatblygu ledled Sir Gaerfyrddin.

Canmolodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant y gwasanaeth ar ennill y wobr Arian wrth gefnogi'r gwaith o gyflwyno Gwobr Dug Caeredin a bod yn gyfrifol am yr holl ddarpariaethau mynediad agored sydd ar gael ym mhedwar tîm y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid.

Dywedodd Pen-reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid fod y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi dangos hyblygrwydd yn ystod y cyfyngiadau symud a'i fod wedi ymateb yn dda i'r heriau a wynebwyd drwy gefnogi'r gwaith o staffio'r hybiau ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud, cynnig cymorth i deuluoedd pan oedd hynny'n briodol, cyflawni dyletswyddau dosbarthu bwyd ledled y sir, cynnal ymweliadau wrth y drws/yn yr ardd i'r rhai y barnwyd eu bod yn agored i niwed ac maent wedi addasu'n gyflym i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn modd diogel ochr yn ochr â gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Bwrdd Iechyd a'r Adran Addysg gyfan.

Yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd diogelu yn parhau i fod o'r pwys mwyaf i'r gwasanaeth; mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn sefydliad dysgu sydd wedi'i ailstrwythuro i ddiwallu'r anghenion ar draws Sir Gaerfyrddin. Cafodd y gwasanaeth ei integreiddio ym mis Ionawr, 2016 er mwyn gweithio yn y modd gorau posibl gyda'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a chwblhaodd y Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid hunanasesiad yn erbyn Safonau Cenedlaethol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Plant yn y System Cyfiawnder Ieuenctid ym mis Mawrth, 2020.

Cyn y cyfyngiadau symud roedd staff yn gweithio gyda'i gilydd i nodi proffil anghenion a risgiau llwyth achosion y tîm i helpu i flaenoriaethu a nodi'r math o gyswllt/cymorth sydd ei angen ar bob plentyn lle cwblhaodd rheolwyr a staff statws Coch / Ambr / Gwyrdd ar gyfer pob achos Llys a phob achos y Tu Allan i'r Llys gan ddefnyddio templed a oedd yn nodi perygl o niwed difrifol, pryderon diogelwch a llesiant neu unrhyw ymateb gofynnol neu angen arall.

Mae Pen-reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wrthi'n llunio Cynllun Busnes y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid a fydd yn cynnwys ffocws ar y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer 2021/22 yn ogystal â throsolwg o'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chynllunio yn y dyfodol.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y sefyllfa o ran digartrefedd a dywedodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod llawer o heriau yn cael eu hwynebu o ran digartrefedd yn ogystal â lleoliadau maeth sydd angen gofal ychwanegol a bod staff yn gysylltiedig â'r Adran Dai.
- Gofynnwyd a yw capasiti staff yn is oherwydd bod rhai'n gweithio mewn meysydd eraill a chadarnhaodd Pen-reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid fod capasiti llawn gan y gwasanaeth bellach; mae gwaith ieuenctid datgysylltiedig wedi dechrau ac mae Canolfannau Ieuenctid Sir Gaerfyrddin ar agor ar sail apwyntiadau yn unig ac mae Clybiau Ieuenctid wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithwir am y tro fel ymarfer gweithio diogel.
- Gofynnwyd am adborth ar sut mae'r datblygiadau newydd gan gynnwys prosiectau newydd megis Iechyd Meddwl a Llesiant yn gweithio. Dywedodd Pen-reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid fod gan y gwasanaeth bartneriaeth sefydledig â Dr Mz drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. O ganlyniad i COVID datblygwyd pecynnau lles / gweithgareddau a'u gwneud yn hygyrch. Ers peth amser bellach, roedd pecynnau hylendid wedi'u cadw i'w rhoi i bobl ifanc. Mae llawer o waith ieuenctid datgysylltiedig yn cael ei wneud yn ogystal â chynnal diwrnodau "cadw mewn cysylltiad" gyda'r rhai sy'n agored i niwed, y rhai sy’n mynychu clybiau ieuenctid a'r rhai ôl-16. Cynhaliwyd Hwb Bregusrwydd yn Ysgol Glan y Môr yr haf diwethaf a bydd yn cael ei gynnal eto yr haf hwn a bydd yn defnyddio gwaith ieuenctid datgysylltiedig i gadw mewn cysylltiad â'r bobl ifanc sy'n agored i niwed fel y gellir sicrhau, os oes unrhyw adroddiadau am bryderon yn y gymuned, bod modd rhoi gweithwyr ieuenctid yn yr ardal honno i gael gwybod pa gymorth sydd ei angen a'u cyfeirio i'r cyfeiriad cywir i gael cymorth. Dywedodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod grŵp strategol ar waith i weithredu Fframwaith Iechyd Meddwl a Llesiant ac archwilio cysyniadau a chynllun adfer.
- Mae'r effaith ar bobl ifanc wedi bod yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a mynegwyd pryder ynghylch y cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofynnwyd a oes unrhyw fannau problemus wedi'u nodi ar draws y Sir o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dywedodd Pen-reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid ei bod yn ymwybodol o adroddiad diweddar yn y cyfryngau ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol a oedd yn gysylltiedig â threnau a gorsafoedd trenau a niferoedd mawr o bobl ifanc yn ymgynnull; mae gan y gwasanaeth gysylltiadau agos â'r Timau Plismona Bro ac mae gan y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid ddulliau atgyfeirio ar waith o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol a ffurflen atgyfeirio atal ranbarthol sydd gan yr heddlu ar eu system ar gyfer atgyfeiriadau. Mae llif cyson o atgyfeiriadau atal er bod ychydig o gynnydd ers y pandemig. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn perthynas ag atgyfeiriadau sy'n gysylltiedig â mannau problemus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Cyfeiriwyd at ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol a gofynnwyd faint mae'r Gweithwyr Ieuenctid yn yr Ysgol yn ei wybod h.y. disgybl yn rhannu ei broblemau gyda nhw. Sicrhaodd Pen-reolwr y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid y pwyllgor fod Sir Gaerfyrddin yn ffodus i gael Gwaith Ieuenctid yn yr Ysgol ym mhob Ysgol Uwchradd a bod diogelu yn allweddol ac os bydd unrhyw faterion yn codi maent yn cael sylw yn uniongyrchol gyda Phenaethiaid yn ogystal â’r Swyddogion Cyswllt yr Heddlu ag Ysgolion sy’n gysylltiedig.

- Cyfeiriwyd at newid y model cyllido a dywedodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod y gwaith ieuenctid wedi'i dargedu hyd at 25 oed – yn gyffredinol mae'r gwasanaeth yn mynd yn fwy dibynnol ar grantiau ac yn targedu'r darpariaethau yn nes at anghenion penodol grantiau. Dywedodd Pen-swyddog y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid fod llawer o waith yn digwydd gyda Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru. Mae Grant Cymorth Ieuenctid Llywodraeth Cymru a gynyddodd 3 blynedd yn ôl yn canolbwyntio ar y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, iechyd emosiynol a meddyliol ac atal digartrefedd. Mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro hefyd yn edrych ar y Grant Cynnal Refeniw a sut y caiff hwn ei ddefnyddio ar draws Awdurdodau Lleol ar gyfer gwaith ieuenctid.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** dderbyn yr adroddiad.

## 5. CYNLLUN GWEITHREDU TRAWSNEWID ADY

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar gynnydd Cynllun Gweithredu Trawsnewid ADY Sir Gaerfyrddin a'r adolygiad o Ariannu Fformiwla ADY sy'n amlinellu sut mae'r awdurdod lleol yn helpu ysgolion o ran eu gwaith cynllunio wrth roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) ar waith.

Y system ADY yw'r system cymorth statudol newydd ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yng Nghymru sydd ag ADY, sydd i ddod i rym ym mis Medi 2021.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant y bydd y system statudol newydd yn cael ei chyflwyno ym mis Medi, 2021 gan nodi ei phwysigrwydd i bawb sy'n ymwneud â thrawsnewid ADY bod pob ysgol yn sicrhau bod yr hyn sydd ar waith yn briodol iddi, ac yn bwysicach, i'r dysgwyr yn yr ysgol. Bydd y Cod ADY Newydd yn cael ei gyflwyno i ddechrau i leoliadau meithrin, Blynyddoedd 1, 3, 5, 7 a 10. Mae'r newid yn gosod mwy o gyfrifoldeb ar ysgolion a llai ar yr Awdurdod.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant fod y model Cydlynydd ADY wedi'i gyhoeddi ym mis Mawrth, 2021. Nododd nad yw'r trawsnewidiad yn newydd i'r awdurdod a'i fod wedi bod yn gweithio arno ers 2018; mae'r gwasanaeth wedi ehangu o ran ADY ac yn yr Adran Gynhwysiant. Mae'r Rheolwyr ADY wedi bod yn gweithio ochr yn ochr ag ERW gyda'r 6 Awdurdod Lleol rhanbarthol yn dogfennu'r Egwyddorion a chynllunio wedi'i bersonoli i ddiwallu eu hanghenion o ran Cynlluniau Datblygu Unigol. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi trosolwg ar gyfer canllawiau gweithredu technegol manwl gyda 4 gorchymyn cychwyn allweddol a bydd hyfforddiant ar gyfer Cydlynwyr ADY yn cael ei deilwra i'r unigolyn.

Cyflwynodd y Rheolwyr ADY adroddiad ar ddatblygu rhaglen mapio darpariaeth ADY, model gwneud penderfyniadau, darpariaeth gyffredinol a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol o ran datblygu offeryn mapio electronig ar gyfer ysgolion. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant fod y Ganolfan Athrawon wedi'i chomisiynu i gefnogi Cynlluniau Datblygu Unigol ar draws ysgolion, teuluoedd, plant a phobl ifanc. Dywedodd y Rheolwyr ADY y bydd llawlyfr cyfeirio ar gyfer ysgolion yn cael ei lunio yn y dyfodol a bod rhaglen

amlasiantaeth yn cael ei datblygu i'w rhannu â chydweithwyr Iechyd yn Hywel Dda a darparu hyfforddiant ar draws Gofal Cymdeithasol a'r sector Addysg.

Dywedodd y Rheolwyr ADY y bydd angen i bob plentyn gael adolygiad a bod y meini prawf yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Datblygu Unigol a nodwyd na fydd cofrestr ADY mwyach / dim Plant â Datganiad gan y bydd hyn yn dod i ben.

Mae cyllid ychwanegol yn cael ei roi i ysgolion i ryddhau'r Cydlynydd ADY i ystyried y gwaith o roi'r system newydd ar waith. Bydd ysgolion yn derbyn y taliadau atodol canlynol ar sail cymorth prydau ysgol am ddim, y gofrestr AAA i fonitro a herio lle mae datganiadau yn gofyn am fwy nag 1 cynorthwyydd addysgu fesul disgybl, bydd yr Awdurdod Lleol yn ariannu'r gofyniad ychwanegol yn llawn a'r bwriad yw y bydd cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r tâl atodol ADY wrth i Ddatganiadau leihau:-

***<u>Tâl atodol ADY</u>***
£1000 fesul plentyn sy'n derbyn gofal / 25% prydau ysgol am ddim / 25% Gweithredu gan yr Ysgol / 50% Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

***<u>Tâl atodol AAA</u>***
100% tâl atodol ar gyfer y rhai y cytunwyd arnynt hyd at fis Hydref, 2019 / o fis Hydref, 2019 – Cynradd: 50% ar gyfer Datganiadau newydd; Uwchradd 40% neu 45% fesul datganiad

Mae'r elfennau sydd angen cyllid yn cael eu cadw gan yr ysgol ac yn ganolog. Disgwylir i ysgolion wneud penderfyniadau rhwng 7 a 12 wythnos (amserlenni statudol).

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- A yw Sir Gaerfyrddin wedi gwneud defnydd llawn o'r cyllid ac a oes digon i'r dyfodol? Dywedodd y Pennaeth Addysg a Chynhwysiant eu bod, fel gwasanaeth, wedi bod yn ffodus o ran twf y tîm a nifer fawr o unigolion o ysgolion a bod y gyllideb o ran dysgu proffesiynol wedi derbyn grantiau ADY ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dywedodd y Rheolwr ADY fod Athro/Athrawes Plant Byddar ychwanegol wedi ymuno â'r tîm a bod 2 Arbenigwr Awdurdod Lleol ym Mharcyrhun, Rhydaman a Chanolfan Elfed yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth a bod hyd at 20 o blant byddar sydd am gael mynediad i addysg plant byddar.
- Cyfeiriwyd at y modd y caiff lefelau galluoedd eu monitro mewn ysgolion prif ffrwd mewn perthynas ag unedau arbenigol ag anghenion mwy cymhleth. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant fod gwerthusiad cynhwysfawr ym mhob ysgol sy'n galluogi cynhwysiant cadarnhaol a bod hyn yn cael ei rannu drwy gynnig cynhwysiant mewnol mewn lleoliadau arbenigol.
- Gofynnwyd a oedd yn rhan o faes gorchwyl yr ysgol i addysgu rhieni neu a fyddai'n Sir yn gwneud hynny. Dywedodd y Pennaeth Addysg a Chynhwysiant, gan eu bod yn dal i aros am wybodaeth dechnegol gan Lywodraeth Cymru, fod yn rhaid inni aros cyn rhannu unrhyw gyhoeddiad terfynol.

- Gofynnwyd a oes ôl-groniad o ran tribiwnlysoedd oherwydd Covid-19 a beth yw'r amserlen ar gyfer tribiwnlysoedd. Dywedodd y Rheolwr ADY fod y gwasanaeth tribiwnlysoedd wedi parhau drwy gynnal apeliadau tribiwnlysoedd rhithwir ac nad yw wedi dod i ben yn ystod Covid-19.
- Cyfeiriwyd at y 5% cyllid disgyblion o ran eu cyllideb ADY; dywedodd y Pennaeth Addysg a Chynhwysiant fod ystyriaeth allweddol yn ymwneud ag addysgu da i bob disgybl a gwybod bod pob athro/athrawes yn gwybod lefel eu plant.
- Gofynnwyd a fydd y broses drawsnewid yn ddi-dor i'r platfform digidol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol gan nad yw hynny wedi digwydd o'r blaen. Dywedodd y Pennaeth Addysg a Chynhwysiant fod y platfform a ddewiswyd h.y. y Ganolfan Athrawon, yn cael ei ddefnyddio ym mhob ysgol ar hyn o bryd a'i bod yn ychwanegu at y cymhwysiad presennol. Yn y dyfodol bydd y Swyddog Blynyddoedd Cynnar / Dechrau'n Deg yn edrych ar hyn yn fanwl cyn iddynt gael eu cofnodi ar y system i ddechrau.
- Cyfeiriwyd at ysgolion â llai na 100 o ddisgyblion sydd o dan y golofn cyllid canolog a gofynnwyd ai'r nod yma yw rhannu adnoddau dynol. Mae'r Rheolwr ADY wedi cysylltu ag awdurdodau eraill a'r nod yw dirprwyo cymaint o arian ag sy'n bosibl i ysgolion ond nid oes dim awdurdod wedi penderfynu beth sy'n cael ei wneud. Arfer gorau yw rhoi mwy o arian i ysgolion ar gyfer ymyrraeth gynnar sy'n ei gwneud yn haws gwneud y penderfyniadau cywir a chynllunio yn y tymor hir.
- Mae 22 fformiwla wahanol yn ceisio cyflawni'r un canlyniad. Dywedodd y Pennaeth Addysg a Chynhwysiant, gan na fydd Datganiadau yn bodoli, y byddwn yn ceisio rhoi'r adnoddau ar sail hyblyg i ysgolion er mwyn i'r ysgolion benderfynu ar y ffordd ymlaen. Bydd ysgolion yn gofyn am arian i ddiwallu anghenion y plentyn hwnnw h.y. ymyrraeth gynnar. Os credir na all yr ysgolion ddiwallu anghenion y disgybl hwnnw gall y Sir benderfynu ac mae Cynllun Datblygu Unigol yn dod o dan yr awdurdod. Yn Lloegr maent wedi penderfynu ar fodel cenedlaethol mewn perthynas â chyllid fel rhan o'r sefydliad newydd. Nid oes trafodaethau i'r perwyl hwn yn digwydd yng Nghymru.
- Gofynnwyd a yw cynghorau yng Nghymru wedi cyflwyno cais ffurfiol am fformiwla ariannu i Lywodraeth Cymru. Nid oedd y Pennaeth Addysg a Chynhwysiant a'r Rheolwyr ADY yn ymwybodol a chredir yn gryf ar draws y pwyllgor fod angen ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder cyn rhoi'r system newydd ar waith ym mis Medi, 2021 ac o bosibl dilyn patrwm Lloegr. Bydd y Pennaeth Addysg a Chynhwysiant yn drafftio llythyr ar ran y Cadeirydd i ofyn am eglurder gan Lywodraeth Cymru ar ddefnyddio dull tebyg i Loegr o ran cyllid ADY.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** dderbyn yr adroddiad.

## 6. SESIYNAU YMGYSYLLTU AG YSGOLION (YMWELIADAU YSGOLION CRAFFU BLAENOROL)

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch ailgyflwyno sesiynau ymgysylltu ag ysgolion ac effaith gwasanaethau cymorth yr awdurdod ar gynnal darpariaeth o ansawdd uchel yn ein hysgolion a disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran cyfrannu at wella ysgolion.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant fod y flwyddyn ddiwethaf, yn sgil y pandemig, wedi cael effaith negyddol ar gynlluniau gan fod ysgolion ar gau am fisoedd ac na wnaed unrhyw ymweliadau. Y gobaith yw y bydd trafodaethau gydag ysgolion yn cael eu cynnal ar gyfer y flwyddyn academaidd Medi, 2021 a'r cwricwlwm newydd.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd sut y gall ysgolion fod yn rhan o drafodaeth ynghylch pa strwythur / trafodaethau y gellir eu gwneud heb ymweld ag ysgolion. A ellir eu gwahodd i rannu eu profiadau gyda'r Pwyllgor Craffu? Dywedodd y Cadeirydd a'r Pennaeth Addysg a Chynhwysiant y byddant yn cysylltu ag ysgolion ac yn ffurfio 3 grŵp o aelodau'r pwyllgor i gael trafodaethau rhithwir. Bydd amserlen o themâu awgrymedig / mathau o gwestiynau i'w gofyn a thystiolaeth y gofynnir amdani yn cael ei chreu ar gyfer tymor yr hydref fel y gall gwaith ddechrau ar gyfer y 2 dymor nesaf a bydd adeiladau ati yn cael eu trafod yn y trydydd tymor. Bydd y Pennaeth Addysg a Chynhwysiant yn cysylltu gwaith ac ymweliadau â'r tîm gwella ysgolion i edrych ar gymorth ac unrhyw elfennau ar gyfer gwella.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** dderbyn yr adroddiad**.**

## 7. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Eglurwyd i'r Pwyllgor pam na chyflwynwyd yr adroddiad craffu canlynol a nodwyd y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf:-

- Gwasanaethau Plant (Cyfraddau Atgyfeirio Uwch)

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** nodi'r wybodaeth.

## 8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

**PENDERFYNWYD** nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 8 Gorffennaf 2021 ac fe'i nodwyd ar lafar y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno gerbron y pwyllgor hefyd ar 8 Gorffennaf 2021 ac y bydd o bosibl yn rhoi argymhelliad interim gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

## 9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 EBRILL, 2021

Yn amodol ar y newid canlynol o ran aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen oherwydd amgylchiadau annisgwyl-

Plaid Cymru: Y Cynghorydd Jean Lewis i gymryd lle'r Cynghorydd Emlyn Schiavone
Llafur: Y Cynghorydd Dot Jones i gymryd lle'r Cynghorydd Bill Thomas

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a oedd wedi ei gynnal ar 21 Ebrill 2021 yn gywir.

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**